# Polisi Mynediad Agored a Chadw Hawliau

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Prifysgol Aberystwyth (‘PA’) wedi ymrwymo i ledaenu ei hymchwil a’i hysgolheictod mor eang â phosibl. Yn unol â chOAlition S a'i egwyddorion Cynllun S, ac er mwyn cydymffurfio â gofynion mynediad agored cyllidwyr ac ymchwil, mae'r Polisi hwn yn cynnwys mabwysiadu cadw hawliau, sy'n caniatáu i Awduron PA gadw digon o hawliau i ganiatáu i'r Brifysgol ddarparu mynediad agored ar unwaith i lawysgrif awdur wedi’i dderbyn ('AAM')/ ôl-argraffu.

1.2. Mae'r Polisi hwn yn disodli Polisïau blaenorol Cadw Hawliau a Mynediad Agored a Pure PA.

1.3. Cefnogir y polisi hwn gan ganllaw'r awdur.

## 2. Pwrpas

Pwrpas y Polisi yw:

- Galluogi lledaeniad eang a rhad ac am ddim o Gyhoeddiadau Ymchwil PA a chefnogi egwyddorion mynediad cyhoeddus i ymchwil a ariennir yn gyhoeddus.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion mynediad agored cyllidwyr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys cyllidwyr megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI), Cyngor Ymchwil Ewrop (ERC), Ymddiriedolaeth Wellcome, a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NIHR).
- Galluogi cydymffurfiaeth â gofynion asesiadau ymchwil (megis y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil “FfRhY”).
- Amlinellu ymrwymiad y Brifysgol i gadw hawliau dros lawysgrifau awdur wedi’u derbyn (AAM) er mwyn sicrhau mynediad agored mwyaf posibl i gyhoeddiadau.

## 3. Cwmpas

3.1. Mae'r Polisi'n berthnasol i weithiau academaidd a gyflwynir ac a dderbynnir i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion neu drafodion cynhadledd gyda Rhif Cyfresol Safonau Rhyngwladol (ISSN), neu'r rhai a gynhelir ar blatfform cyhoeddi.

3.2. Nid yw'r Polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithiau academaidd eraill gael eu hadneuo, e.e. monograff, neu bennod o fonograff, yn storfa ddigidol Mynediad Agored y Brifysgol ond mae PA yn parhau i annog adneuo'n gryf lle bo’n bosibl.

3.3. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i awduron a chyd-awduron PA sy'n staff, neu'n fyfyrwyr y mae gan eu cyllidwyr ofynion mynediad agored ('awduron PA'). Anogir awduron eraill sy'n defnyddio cysylltiad â PA i fabwysiadu'r polisi hwn lle bo’n bosibl.

3.4. Mae awduron PA yn dal i allu cyhoeddi Mynediad Agored Aur drwy dalu tâl prosesu erthygl (APC) i gyhoeddwr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gytundeb trawsnewidiol, ar gyfer mynediad uniongyrchol, rhad ac am ddim i'r fersiwn derfynol, gyhoeddedig o'r cofnod drwy drwydded Creative Commons Attribution (CC BY). Mae Cadw Hawliau Awduron yn cefnogi'r llwybr hwn ac nid yw'n gwrthdaro ag ef.

## 4. Polisi

4.1. Mae PA yn gofyn bod llawysgrif awdur wedi'i dderbyn (AAM) o gyfraniadau cyfnodolion a thrafodion cynhadledd nad ydynt yn cael eu cyhoeddi drwy Fynediad Agored Aur, yn cael ei adneuo yn ei storfa ddigidol - PURE - o fewn mis o'r dyddiad derbyn ar gyfer cyhoeddi.

4.2. Yn ogystal, o 1 Ionawr 2026, bydd PA yn gweithredu Cadw Hawliau Awduron ar bob llawysgrif awdur wedi'i dderbyn (AAM) a gyflwynir. Bydd awduron PA yn rhoi trwydded fyd-eang, anghyfyngedig, na ellir ei dirymu i'r Brifysgol - "Trwydded Mynediad Agored y Brifysgol" - i wneud eu llawysgrifau awdur wedi'u derbyn (AAM) a adneuwyd ar gael i'r cyhoedd o dan delerau Creative Commons Attribution (CC BY) neu drwydded gyfwerth, drwy storfa ddigidol y Brifysgol o fewn mis ar ôl adeuo.

4.3. Bydd hyn yn caniatáu i'r Brifysgol wneud gwaith ei hawduron ar gael i'w ddarllen heb gymhwyso embargo a bennir gan unrhyw gyhoeddwr, ac i awduron PA rannu eu gwaith ag eraill heb o bosibl dorri unrhyw gytundeb trosglwyddo hawlfraint a wnaed gyda chyhoeddwr.

4.4. Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddwyr y mae awduron PA wedi cyhoeddi gyda nhw'n ddiweddar wedi cael gwybod am y newid polisi hwn gan y Brifysgol. Os yw awduron PA yn bwriadu cyhoeddi gyda chyhoeddwr nad yw ar y rhestr, dylent hysbysu mynediadagored@aber.ac.uk a bydd y Brifysgol yn hysbysu'r cyhoeddwr.

4.5. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar awduron PA i ddarparu datganiad 'cadw hawliau' ar wahân i'r cyhoeddwr ar y llawysgrif a gyflwynwyd nac unrhyw lythyr eglurhaol a all gyd-fynd â hwn.

4.6. Mae PA yn cydnabod y gallai fod nifer fach o sefyllfaoedd lle mae angen i awduron optio allan o'r polisi hwn, ac yn yr achos hwn bydd angen i awduron gysylltu â mynediadagored@aber.ac.uk i ofyn am optio allan o'r fath.

## 5. Polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig

Mae'r Polisi hwn yn ategu polisïau eraill y Brifysgol sy'n ymwneud ag Ymchwil Agored:

- Polisi Rheoli Data Ymchwil
- Datganiad Prifysgol Aberystwyth ar ddefnydd cyfrifol o fetrigau ymchwil
- Canllawiau i awduron ar weithdrefnau Mynediad Agored a Chadw Hawliau
- Polisi Eiddo Deallusol PA

## 6. Adolygu a chymeradwyo

Bydd y Polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd gan y Grŵp Ymgynghorol Mynediad Agored. Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am gymeradwyo'r Polisi hwn ac unrhyw newidiadau iddo.